



CRYNODEB O ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR 2021-2022



GAIR GAN Y CADEIRYDD

Gwelwyd nifer o newidiadau cadarnhaol ym mlwyddyn ysgol 2021-22, wrth i fywyd ddychwelyd i rhwy fath o normalrwydd ar ôl Covid. Eleni, roedd y plant yn gallu treulio llawer mwy o amser gyda'i gilydd, er enghraifft perfformio a chanu gyda'i gilydd yn neuadd yr ysgol am y tro cyntaf ers dwy flynedd. Dychwelodd llawer o weithgareddau cyfarwydd i'r calendr, gan gynnwys ymweliadau disgyblion â gwersylloedd yr Urdd Glan-llyn a Chaerdydd, ac Eisteddfod yr Urdd, lle bu'r ysgol yn dathlu llwyddiannau mewn cerddoriaeth a chelf a chreffft. Roedd disgyblion yn disgleirio mewn chwaraeon hefyd, gan ennill twrnameintiau pêl-droed a chynrychioli Bodhyfryd ledled Cymru. Llongyfarchiadau i'r holl blant a diolch i'r staff am alluogi'r gweithgareddau hyn! Trwy gydol y flwyddyn, bu'r plant hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o ddawns stryd i animeiddio, pêl-rwyd i arddio. Gwnaeth staff yr ysgol gais llwyddiannus hefyd am sawl grant i wella'r ardaloedd awyr agored, sydd bellach yn edrych yn wych. O fis Medi 2022, daw'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn statudol ac mae'r ysgol wedi bod yn paratoi ar gyfer hyn – dymunwn y gorau i'r staff gyda'r newidiadau hyn. Yn olaf, yn yr haf 2022, penodwyd Mrs Penge fel Dirprwy Bennaeth parhaol – llongyfarchiadau i Mrs Penge! Mae'r ysgol mewn dwylo diogel ar gyfer y dyfodol.

Diolch o galon i'r holl staff sydd yn cadw'r plant yn ddiogel o ddydd i ddydd a dymuniadau gorau i bawb am weddill y flwyddyn academaidd.

Liz Edwards

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfnidaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 cyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Os hoffech i'r Corff Llywodraethol gynnal cyfarfod mae'n ofynnol i rieni gyflwyno deiseb/ cais am gyfarfod gyda llofnod o leiaf 10% o rieni arno.

Etholiadau rhiant llywodraethwyr

Cynhelir yr etholiadau nesaf ar gyfer cynrychiolwyr y rhieni ar y corff llywodraethol ar 9.2.25

AELODAU'R BWRDD LLYWODRAETHOL 21-22

CADEIRYDD: Dr Elizabeth Edwards

CLERC: Adrienne Jones

Gellir cysylltu â Dr Elizabeth Edwards neu Adrienne Jones trwy swyddfa'r ysgol, 01978 351168

Enwau a statws aelodau'r corff

Enw Llywodraethwr	Cynrychioli	Dyddiad Gorffen
Rhodri Davies	Cadeirydd/Chair Rhiant Lywodraethwr	19.05.17 – 18.05.21
Dr Elizabeth Edwards	Cadeirydd/Chair Rhiant Lywodraethwr	8.2.21 – 8.2.25
Gareth Williams	Is gadeirydd Cymunedol	8.4.19-7.04.23
Cynghorydd Alun Jenkins	Yr Awdurdod Lleol	10.3.20 – 9.3.24
Cynghorydd Graham Rogers	Yr awdurdod Lleol	1.7.20 – 30.6.24
Cynghorydd Linda Subacchi	Cymunedol ychwanegol	04.02.22 – 03.02.26
Nerys Davies	Pennaeth	18.07.18 – 17.07.22
Gwawr Thomas	Cymunedol	31.08.21 – 31.08.25
Jenny Humphreys	Cymunedol	3.1.21 – 3.1.25
Catrin Penge	Llywodraethwr athro/ Teacher governor	25.1.21-24.1.25
Shaun Richardson	Llywodraethwr staff	25.1.21 – 24.1.25
Angharad Jones	Rhiant llywodraethwr	1.03.22 – 28.02.26
Claire Tomlinson	Rhiant Lywodraethwr	15.10.21 – 14.10.25
Nia Redman	Yr Awdurdod Lleol	1.12.21 – 30.11.25
Mra Karen Wilson	Clerc	27.11.18 – 26.11.21
Adrienne Jones	Clerc	12.3.22 – 12.3.26
Amanda	Clerc	27.11.21– 12.3.22

Cysylltiadau gyda'r gymuned

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Defnyddir yr ardal leol fel adnodd gwerthfawr i hybu a hwyluso profiadau dysgu'r disgyblion. Defnyddir adnoddau naturiol lleol dalgylch yr ysgol i hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, (Cyfnod Sylfaen), Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Celf a gweithgareddau awyr agored yng Nghyfnod Allweddol 2. Cefnogir mudiadau lleol trwy gymeryd rhan mewn amrywiol weithgareddau cymunedol sydd yn cyfrannu at ddiwylliant yr ardal, ac yn ychwanegu at enw da'r ysgol. Cefnogir elusennau lleol yn rheolaidd. Gwahoddir gwahanol unigolion ac asiantaethau lleol i mewn i'r ysgol gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae gennym gysylltiadau cryf gyda chynghorwyr lleol, ac rydym yn elwa'n sylweddol yn sgil gwaith y Cyngor Cymuned lleol a'r Cyngor Sir. Datblygwyd cysylltiadau cryf gyda chartr henoed yn lleol, gyda'r disgyblion yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd gyda thrigolion y cartrefi. Ein Swyddog Heddlu ar gyfer yr ysgol yw PC Marc Jones, ac mae'n gweithio'n benodol gyda Blynyddoedd 2, 4 a 6. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth yr ysgol gynnal amryw o weithgareddau gan godi arian tuag at sawl achos da.

Y Byd Chwaraeon

Yn ystod y flwyddyn, mae'r ysgol wedi cefnogi nifer o weithgareddau chwaraeon. Er nad oedd gymaint o weithgareddau'r Urdd yn sgil Covid, mae'r cysylltiad gyda'r Clwb tenis a'r Clwb Pêl droed wedi bod yn gryf yn ystod y flwyddyn, gyda sesiynau rheolaidd i'r disgyblion. Mae Blwyddyn 3 i 6 yn mynychu'r pwell nofio lleol, tra bod disgyblion o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 yn derbyn gwersi gymnasteg yng nghampfa Queensway.

Datganiad am y cwricwlwm

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i gyflwyno cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol Dau yn effeithiol. Dysgir pob agwedd o'r cwricwlwm trwy ddulliau amrywiol (ee gwersi dosbarth, dulliau grwpio, gwaith unigol, gwaith pâr). Cynhwysir y disgyblion yn y broses o osod trywyddau i'w gwaith er mwyn ceisio sicrhau fod ganddynt ddiddordeb byw yn y gwaith, a fod gennym wybodaeth fanwl o'r hyn maent yn ei ddeall yn barod. Ein bwriad yw sicrhau fod pob disgybl yn cael ei herio i ddysgu hyd eithaf ei allu. Er mwyn sicrhau hyn, mae angen i bob plentyn fod â brwdfrydedd tuag at ddysgu. Trwy ddulliau amrywiol, gweithiwn yn ddiwyd iawn i hyrwyddo lles, hyder a hunan ddelwedd y disgyblion yn ein gofal. Credwn yn daer fod plant hapus, hyderus yn gweithio'n fwy annibynnol ac yn fwy effeithiol. Mae disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derbyn cefnogaeth mewn ffyrdd amrywiol (cefnogaeth 1 i 1, grwpiau bach, gwaith gwahaniaethol o fewn dosbarth, ffyrddiau ar draws blynyddoedd, cefnogaeth tu mewn neu du allan i'r dosbarth). Mae asiantaethau allanol yn cael eu cynnwys yn y broses hon yn unol ag anghenion y disgybl dan sylw. Mae rhieni yn rhan ganolog o'r prosesau hyn hefyd. Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles yr ysgol yw Mrs Sian Jones.

PRESENOLDEB Y DISGYBLION **2021 – 2022**

Canran presenoldeb yr ysgol am y flwyddyn gyfan
90.2 %

Absenoldebau awdurdodedig – 8.5%
Di awdurdodedig - 1.3%

BLAENORIAETHAU'R YSGOL

Blaenoriaeth 1
Datblygu dulliau effeithiol o ddysgu'r cwricwlwm newydd, gan ganolbwyntio ar y 12 egwyddor addysgeg

Blaenoriaeth 2
Parhau i ddatblygu addysgu effeithiol rhifedd ar draws y cwricwlwm

Blaenoriaeth 3
Parhau i ddatblygu cywirdeb iaith Gymraeg y disgyblion

Blaenoriaeth 4
Paratoi ar gyfer y newidiadau ADY